



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE



Rhannwch ein Bwletin â staff eich ysgol ac anogwch eich cyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio.

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y ddolen hon a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau yma.

Gall y dyddiadau/leoliadau newid. Edrychwch ar G6 am yr wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi fynychu unrhyw ddigwyddiad.

MAWRTH 2020	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
2C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 2 Cynradd [Cymraeg - Plas Menai]	12/03/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
Hyfforddiant Therapi Lego	19/03/2020	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn	Saesneg
Cyfarfod Rhwydwaith Lefel A Saesneg - Conwy / Dinbych / Môn / Gwynedd	23/03/2020	Canolfan Fusnes Conwy	Saesneg
Cyfarfod Rhwydwaith Lefel A Saesneg – Sir y Fflint / Wrecsam	24/03/2020	Ysgol Maes Garmon	Saesneg
MEI TAM Mecaneg	24/03/2020	Canolfan Fusnes Conwy	Saesneg
Datblygu dull trawsgwriclaidd o addysgu geirfa a darllen (Uwchradd) - Arweinwyr Llythrennedd (Gwynedd a Môn)	25/03/2020	Plas Menai, Caernarfon	Saesneg
2U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 2 Uwchradd [Cymraeg - Plas Menai]	31/03/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
EBRILL 2020			
2U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 2 Uwchradd [Saesneg - Llanelwy]	01/04/2020	OpTIC, Llanelwy	Saesneg
2U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 2 Uwchradd [Saesneg - Wyddgrug]	02/04/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg

Diweddariad G6

Diweddariad i'r System G6

Gweler yma arweiniad ynglŷn â'r diweddariad i system G6. Yn ogystal â chyflymu amser llwytho tudalennau, mae'r diweddariad yn ymateb i geisiadau uniongyrchol gan Benaethiaid a defnyddwyr eraill ar gyfer elfennau megis:

- Y gallu drwy adroddiad ciplun i olygu ac argraffu cynnwys sylwebaeth eich blaenoriaethau yn y modiwl Blaenoriaethau.
- Y gallu i weld ar y dudalen lano yr hyn sydd wedi ei ddiweddarau gan eraill yn eich system G6 chi.

Cefnogaeth i'r System G6

Cyfeiriwch unrhyw broblemau G6, boed yn broblemau mewngofnodi, technegol neu os ydych angen arweiniad neu gyngor, at G6@GwEGogledd.Cymru os gwelwch yn dda.

Digwyddiadau GwE

Cyfarfodydd Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen

16:00 - 17:00

CYFARFODYDD CYFRWNG CYMRAEG

09/03/2020 | CANOLFAN ADDYSG Y BONT, LLANGFNI

12/03/2020 | YSGOL Y BELL, CAERNARFON

17/03/2020 | YSGOL CYMERAU

18/03/2020 | GWE, LINDEN HOUSE, YR WYDDGRUG

19/03/2020 | YSGOL MORFA RHIANEDD

23/03/2020 | YSGOL BRO CINMEIRCH

21/04/2020 | YSGOL BRO IDRIS, SAFLE DOLGELLAU

NID OES ANGEN COFRESTRU



GwE laith



NODYN I SYLW YSGOLION Y RHANBARTH SY'N GWEITHREDU'R SIARTER IAITH GYMRAEG, AC I YSGOLION SIR CONWY SY'N GWEITHREDU CYMRAEG CAMPUS:

Mae system y GwE laith yn cael ei throsglwyddo dros y misoedd nesaf o system Cyngor Gwynedd i Hwb. Mae peilot yn cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn ychydig o ysgolion i brofi'r system cyn ei bod yn cael ei lansio yn genedlaethol ar y 1af o Fai. Bydd system Cyngor Gwynedd yn cau ar 31 Mawrth 2020, felly ni fydd mynediad at ddata GwE laith nac ychwaith at yr holiaduron o'r 1 - 30 Ebrill. Gobeithio na fydd hyn yn creu gormod o broblemau, ond mae angen mis arnom i drosglwyddo'r data hanesyddol, a rhoi digon o amser rhwng cau'r hen system ac agor yr un newydd i sicrhau nad ydym yn colli unrhyw wybodaeth.


Os oes gennych unrhyw gwestiwn, [cliciwch yma i gysylltu gyda Meinir Thomson yn Llywodraeth Cymru.](#)

GwE Digidol

Sialensiau Codio GwE

Fel rhan o'r cynllun Cracio'r Cod, bydd GwE yn darparu sialensiau codio rheolaidd i herio eich clybiau codio a'ch dosbarthiadau. Mae'r sialensiau yn addas i ddysgwyr CA2 a CA3. Mae'r ddwy sialens gyntaf yn fyw nawr ac yn agored hyd at 30 Mawrth!

[CLICIWCH YMA I WELD Y SIALENSIAU](#)



Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Proses Cymeradwyo AGAA Cymru



Mae galwad newydd yr Academi Arweinyddiaeth ar gyfer cymeradwyo bellach ar agor. Rydym yn ymestyn yr alwad i gynnwys darpariaeth ar gyfer arweinyddiaeth athrawon.

[RHAGOR O FANYLION](#)



Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cyngor y Gweithlu Addysg



YMGYSYLLTU Â RHANDEILIAID YNGHYLCH TANGYNRYCHOLAETH O GYMUNEDAU POBL DDUON AC ASIAIDD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG YMHLITH ATHRAWON A CHYNORTHWYWYR CYMORTH DYSGU

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gweithio ar brosiect i Lywodraeth Cymru sy'n edrych ar faterion sy'n ymwneud â thangynrychioli o ran cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ymysg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu.

Hoffem glywed barn cymunedau amrywiol o bob rhan o Gymru er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o'r materion, a thrafod atebion posibl ac ymatebion polisi.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod i'r digwyddiad, cofrestrwch drwy'r ddolen isod.

[COFRESTRWCH YMA](#)



Carbon Niwtral Nawr

HER 100 YSGOL CYMRU

Fframwaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (Ysgrifenyddiaeth UNFCCC)

Mae Ysgrifenyddiaeth UNFCCC ac *One World* yn cefnogi ysgolion o bedwar ban byd i anelu at gael hinsawdd niwtral fel ffordd i godi ymwybyddiaeth ac annog mwy o ymdrech i fod yn gynaliadwy.

Mae GwE yn cefnogi Ysgrifenyddiaeth UNFCCC ac *One World* i lansio "Her 100 Ysgol" yng Nghymru.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

[Cofrestrwch drwy ddefnyddio unrhyw gyfeiriad e-bost isod \[e-bost Saesneg o.g.y.dd.\]:](#)

joecarvin@gmail.com mnananjogonzalez@unfccc.int gavincass@gwegogledd.cymru

Global Climate Action
United Nations Climate Change

CLIMATE
NEUTRAL
MEASURE
REDUCE
OFFSET
NOW



oneworld
Character building for a global world

Pris Tlodi Disgyblion – Defnyddio dull ysgol gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig

Mae cyfres o ganllawiau wedi cael eu datblygu'n ddiweddar i greu adnodd ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Adnodd yw hwn a luniwyd yng Nghymru, sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o faterion tlodi disgyblion ac yn darparu atebion gweladwy, cost-effeithiol sy'n gallu cyfrannu at wella llesiant dysgwyr. Mae Plant yng Nghymru ar gael i roi cyngor a darparu hyfforddiant i ysgolion. Am fwy wybodaeth, cysylltwch â kate.thomas@childreninwales.org.uk (029) 2034 2434

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

RHAGLENNU SCRATCH

Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi Llywodraeth Cymru gyda datblygiad proffesiynol athrawon, mae Technocamps Bangor yn cynnig hyfforddiant AM DDIM mewn Meddwl Cyfrifiadurol gan ddefnyddio Scratch.

Rydym yn cynnig 2 gwrs, dechreuwyd ac uwch, ond gellir teilwra'r cynnwys yn unol â hynny i'r gynulleidfa os oes angen.

Cyflwyniad i Raglennu Scratch

📅 23 MAWRTH 2020 ⌚ 09:00-15:00 📍 COLEG MEIRION DWYFOR, DOLGELLAU

Bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i gysyniadau rhaglennu allweddol ac yn caniatáu ichi gymhwyso'ch dealltwriaeth trwy amrywio'ch o brosiectau. Byddwch yn darganfod camgymeriadau a pheryglon cyffredin, ac yn datblygu strategaethau i'w trwsio.

COFRESTRWCH YMA

Rhaglennu Scratch Pellach

📅 25 MAWRTH 2020 ⌚ 09:00-15:00 📍 COLEG MEIRION DWYFOR, DOLGELLAU

Bydd y cwrs hwn yn atgyfnerthu cysyniadau rhaglennu allweddol ac yn rhoi cyfle i chi ymestyn eich gwybodaeth trwy adeiladu adnodd dysgu ar sail gemau yn Scratch. Yna byddwch chi'n gallu atgyfnerthu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu ymhellach trwy gwblhau nifer o sialensiau codio.

COFRESTRWCH YMA



TECHNIQUEST

Dysgwch STEM ar y traeth ac mewn corsydd rhyfeddol

📅 25 MAWRTH 2020 📍 CANOLFAN YMWELWYR YNYS LAS, BORTH

RHAGOR O FANYLION A CHOFRESTRU

Cysylltiad â byd natur

📅 30 MAWRTH 2020 📍 NEUADD GOFFA BETWS Y COED

RHAGOR O FANYLION A CHOFRESTRU

Cysylltiad â byd natur

📅 23 EBRILL 2020 📍 CANOLFAN CONWAY, LLANFAIR P.G.

RHAGOR O FANYLION A CHOFRESTRU

GWEITHDY: TECHNEGAI CELF GYDAG ADNODDAU PRIN

31/03/2020 - CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY

Sut i ddefnyddio hanes, iaith a diwylliant Cymraeg i ysbrydoli prosiectau Celf yn Ysgolion cynradd ac uwchradd, heb ddefnyddio adnoddau drud.

Mae'r gweithdy yn addas ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2 a 3.

Bydd y gweithdy'n cael ei gynnal yn ddwyieithog gan Eleri Jones

Am ddim ac mae EDAU yn cynnig cyfraniad tuag at gostau cyflenwi staff.

ARCHEBWCH NAWR, NIFER CYFYNGEDIG

EDNU

STIWDIO: HYFFORDDIANT CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL I ATHRAWON

11/03/2020 - VENUE CYMRU, LLANDUDNO - 09:30-15:00

Mae'r celfyddydau mynegiannol yn rhan canolog o gwriciwlwm newydd Cymru. Mae'r diwrnod hyfforddiant yma yn archwilio Meysydd Dysgu a Phrofiad y celfyddydau mynegiannol, wedi ei ddylunio a'i greu gan athrawon Gogledd Cymru.

Diwrnod creadigol gyda sawl sesiwn cyffwrdd lle bydd cyfle i chi dorchio'ch llewys, bod yn greadigol a chael eich gwrthio i feddwl yn wahanol a chael profiadau unigryw - i'ch paratoi ar gyfer datblygu'ch gwaith celfyddydau mynegiannol yn yr ysgol.

I bwy mae o?

Addas ar gyfer athrawon o bob cyfnod dysgu (cynradd ac uwchradd) yn arbennig felly i'r rhai sydd eisoes â diddordeb ym myd celfyddydau mynegiannol, croeso i bawb. Croeso i brifathrawon ac aelodau o Uwch Dim Rheoli ysgolion.

STIWDIO

ARCHEBWCH EICH LLE YMA

Ymgyrch Lefel A

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar ymgyrch i annog pobl ifanc i ddewis Cymraeg fel pwnc Lefel A, gyda'r gobaith y bydd yn annog pobl ifanc i wneud y dewis yma fel rhan o'r daith at fod yn athro/awes Cymraeg pynciol. Ymgyrch ddigidol fydd hon efo rhan fwyaf o'r cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. [Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.



Bore Agored Ysgol Eirioli Numicon

YSGOL Tŷ FFYNNON, GLANNAU DYFRDWAY 24/06/2020 09:30 – 11:30

Dewch i weld yr arferion gorau o ran addysgu gyda'r dull Numicon ysgol gyfan, ym more agored ysgol eirioli Ysgol Tŷ Ffynnon. Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#) [uniaith Saesneg].



Cyfle wedi'i ariannu ar gyfer y Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol

PARTNERIAETH RHWNG CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU AC ACADEMI GENEDLAETHOL ARWEINYDDIAETH ADDYSGOL CYMRU

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn falch o allu lansio cyfle cyffrous ar gyfer uwch arweinwyr gan **Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru** mewn partneriaeth ag **Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru**.

Maent wedi sicrhau arian i ddewis 12 o uwch arweinwyr o bob rhan o Gymru, gyda'r nod o'ch cynorthwyo i ddeall ystyr creadigrwydd yng nghyd-destun Cwricwlwm Cymru, a'ch paratoi i annog arloesi yn eich lleoliad drwy godi hyder ymarferwyr i fentro a datblygu gwytnwch.



RHAGOR O FANYLION

DATGAN DIDDORDEB

Trwy Brism Iaith

DYDD IAU, 26 MAWRTH – DYDD GWENER, 27 MAWRTH Y DEML HEDDWCH, CAERDYDD

Bydd y symposiwm rhyngwladol deuddydd hwn yn dwyn ynghyd ystod eang o bobl sydd â diddordeb mewn dwyieithrwydd ac amlieithrwydd i ystyried nifer o gwestiynau.

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Dawnsio Drwy'r Cwricwlwm

27 MAWRTH 2020 09:30-15:00 GLASDIR, LLANRWST

Mae'r gweithdy yma wedi ei ddylunio ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd (cyfnod allweddol 2 a 3) i archwilio a datblygu eu sgiliau i arwain dawns creadigol addysgol.

Wedi ei arwain gan Gyswllt Dawns Ymgysylltu Creadigol Theatr Clwyd, Angharad Jones. Bydd y gweithdy'n cael ei gynnal yn ddwyieithog. Byddwch yn cael eich tywys trwy ddiwrnod ysbrydoledig o ddawns greadigol a chyflwyno tasgau ac offer creadigol fydd yn cynyddu eich hyder wrth greu a chyflwyno dawns yn eich ysgolion.

Mae'r gweithdy am ddim i athrawon ac mae EDAU yn cynnig cyfraniad tuag at gostau cyflenwi staff.

CADWCH EICH LLE



Creu Cydweithredol

YN YR YSGOL A THU HWNT

Bydd y gweithdy hwn yn galluogi athrawon ac ymarferwyr creadigol i ddysgu gan artist wrth ei waith sut i edrych ar bosibilrwydd y rôl ehangach hon ar gyfer y celfyddydau mynegiannol, a ffyrdd cydweithredol o ddatblygu celfyddydau creadigol yn awyrgylch yr ysgol a thu hwnt.

Mae'r gweithdy yn addas ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2, 3 a 4.

Mawrth 13, Storiell, Bangor [cadwch le yma](#)

Mawrth 19, Canolfan Grefft Rhuthun, [cadwch le yma](#)

Am ddim, ac mae EDAU yn cynnig cyfraniad tuag at gostau cyflenwi staff

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#). Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

